Cofnodion Cyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 22 Ionawr 2018, am 7:00pm.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Jim Bryan (Maer) ac Ian Lewney (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Gavin Harris, Ken Hawkins, Menna Jones, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape, Ifan Wyn ac Emrys Wynne.
Hefyd y Cynghorwyr Sir Bobby Feeley a Huw Hilditch-Roberts.

171. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Heather Williams.

172. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

173. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn bresennol yn y digwyddiadau isod.

18.12 Dathliadau pen-blwydd Mr Bill Pritchard yn 100 oed.
04.01 Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys gyda'r Gwir Anrhydeddus David Jones AS.
08.01 Pwyllgor Rheoli Canolfan Awelon.
12.01 Parti ar ôl y Nadolig Awelon.
13.01 Cyfarfod Pwyllgor Rheoli Theatr John Ambrose.
15.01 Cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da, Is-bwyllgor Cyfraniadau a'r Is-bwyllgor Staffio.
Cyfarfod Pwyllgor Gŵyl Rhuthun.
18.01 Cyfarfod Gweithgor Cynllun Gwydnwch Cymunedol Rhuthun.
Ruthin Twinning Association meeting.

174. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Ian Lewney	Cyfarfod yr Is-bwyllgor Cyfraniadau.
Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Cyfarfod yr Is-bwyllgor Cyfraniadau a chyfarfod y Gweithgor Cynllun Argyfwng Cymuned Rhuthun.
Cyng. Stephen Beach	Gwasanaeth Naw Llith a Charol yn Eglwys Sant Pedr, Cyngerdd Nadolig Ysgol Stryd y Rhos, Carolau Nadolig yn Tesco, disgyblion Ysgol Stryd y Rhos yn canu carolau yn Costa Coffee, cyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio a chyfarfod y Gweithgor Cynllun Argyfwng Cymuned Rhuthun.
Cyng. Gavin Harris	Ymweliad Gweithgor yr Hen Lys i weld y tu mewn i'r adeilad a chyfarfod y Gweithgor Cynllun Argyfwng Cymuned Rhuthun.
Cyng. John Wynne Hughes	Cyfarfod gyda David Jones AS i drafod sefyllfa cau Banc Barclays yn Rhuthun.
Cyng. Rosie Hughes	Cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da a chyfarfod Pwyllgor Elusennau Rhuthun.
Cyng. Robert Owen-Ellis	Cyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio.
Cyng. Menna Jones	Helpu i ddosbarthu hamperi y Banc Bwyd, ymweliad â Llys Marchan, cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da a chyfarfod yr Is-bwyllgor Cyfraniadau.
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfod Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch, ymweliad Gweithgor yr Hen Lys i weld y tu mewn i'r adeilad, cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys gyda'r Gwir Anrhydeddus David Jones AS, cyfarfod gyda'r Cynghorydd Emrys Wynne i drafod y Gofeb Rhyfel, cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da, cyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio a chyfarfod y Gweithgor Cynllun Argyfwng Cymuned Rhuthun.
Cyng. Heather Williams	Ymweliad Gweithgor yr Hen Lys i weld y tu mewn i'r adeilad, cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys gyda'r Gwir Anrhydeddus David Jones AS a

	chyfarfod Pwyllgor Rheoli Canolfan Awelon.
Cyng. Ifan Wyn	Pwyllgor Apêl Rhuthun i godi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych 2020, cyfarfod gyda Phennaeth Ysgol Brynhyfryd parthed Theatr John Ambrose, cyfarfod Pwyllgor Gŵyl Rhuthun a chyfarfod y Pwyllgor Gefeillio.
Cyng. Emrys Wynne	Cyfarfod gyda Bleddyn Jones yn Y Ganolfan, Llanfwrog, i drafod cynlluniau ar gyfer y dyfodol a chyfarfod gyda'r Cynghorydd Anne Roberts i drafod y Gofeb Rhyfel.

175. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2017 yn gofnod cywir.*

176. MATERION YN CODI

Darllenodd y Maer lythyr o ddiolch oddi wrth Gyngor ar Bopeth Sir Ddinbych am y cymorth ariannol o £2,000.00 gan Gyngor Tref Rhuthun, a fyddai'n cael ei ddefnyddio tuag at gostau darparu eu gwasanaethau yn swyddfa Rhuthun.

177. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Tynnodd Gadeirydd y Pwyllgor sylw at eitemau o gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2017 ac 8 Ionawr 2018.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2017 ac 8 Ionawr 2018.*

178. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Tynnodd y Dirprwy Faer, a oedd wedi cadeirio'r cyfarfod, sylw at eitemau o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Ionawr 2018.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Ionawr 2018.*

179. COFNODION YR IS-BWYLLGOR CYFRANIADAU

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a chymeradwyo argymhellion yr Is-bwyllgor yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2018.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2018 a chymeradwyo argymhellion yr Is-bwyllgor o ran cyfraniadau, sef £200 i Glwb Bowlio Gorphwysfa, £300 i Homestart Sir Ddinbych, £100 i Eisteddfod Gydwladol Llangollen, £250 i Ambiwlans Awyr Cymru a £100 i Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd.*

180. COFNODION YR IS-BWYLLGOR STAFFIO

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2018 a chymeradwyo argymhelliad yr Is-bwyllgor i symud cyflog Clerc y Dref i'r hicyn nesaf ar y raddfa, SCP32 ar LC2, i'w weithredu o 1 Ebrill 2018. Hefyd gofynnwyd i Glerc y Dref baratoi adroddiad ar gyfrifoldebau ychwanegol, oriau gwaith a'r potensial i benodi cymhorthydd rhan amser.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2018 ac argymhellion yr Is-bwyllgor Staffio.*

181. BANC BARCLAYS – CANGEN RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau drafod ymateb y Cyngor Sir yn dilyn y cyhoeddiad y bydd y gangen yn cau ddydd Gwener, 20 Ebrill 2018. Hysbyswyd yr aelodau bod ffurflenni deiseb yn y siopau lleol, ac fe'u hanogwyd i anfon llythyrau cwyno hefyd. Roedd dau aelod wedi trafod y mater gyda'r Aelod Seneddol lleol, a rhannwyd ei lythyr at Barclays gyda'r aelodau. Cynigiwyd bod y Cyngor Tref yn ysgrifennu at Barclays yn nodi gwrthwynebiad cryf i gau'r gangen. Hefyd cynigiwyd anfon llythyrau at yr Aelodau Cynulliad a'r Aelod Seneddol yn cynrychioli ardal Rhuthun er mwyn i hyn gael ei ystyried ar lefel polisi gan y ddwy lywodraeth. Hefyd cynigiwyd

bod Cyngor Tref Rhuthun yn trosglwyddo ei gyfrifon banc o Barclays i HSBC er mwyn cefnogi'r banc sydd ar ôl yn Rhuthun a manteisio ar gyfleusterau bancio mewn cangen.
PENDERFYNWYD*: anfon llythyrau fel y cynigiwyd a gwneud trefniadau i agos cyfrifon banc gyda HSBC a throsglwyddo o Barclays.*

182. DIWEDDARIAD YNGHYLCH YR HEN LYS

Derbyniodd yr aelodau fanylion am y cofrestriad teitl gan y Gofrestrfa Tir o ran yr eiddo a'r ffi y byddai'r Prisiwr Ardal yn ei godi er mwyn cynnal prisiad. Awgrymwyd trafod y rhain yn fanylach gan Weithgor yr Hen Lys, gydag adroddiad yn ôl i'r Cyngor.
PENDERFYNWYD*: cynnal cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys cyn pen pythefnos.*

183. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – CERDD CYDWEITHREDOL SIR DDINBYCH

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais am £2,000.00 tuag at ymweliad Band Pres Ieuenctid Sir Ddinbych i'r Pencampwriaethau Ieuenctid Ewropeaidd i'w cynnal yn yr Iseldiroedd ym mis Mai 2018 i gynrychioli Cymru. Mynegodd yr aelodau bryderon am y diffyg manylion am y daith, a swm yr elw a nodwyd ar gyfrifon elw a cholledion y sefydliad a gofynnwyd am y fantolen gyfredol a faint o arian sydd mewn cronfeydd wrth gefn.
PENDERFYNWYD*: gofyn am ragor o wybodaeth gan Gerdd Cydweithredol Sir Ddinbych.*

184. COFFÁU CANMLWYDDIANT DIWEDD Y RHYFEL BYD CYNTAF

Roedd y Cynghorydd Keiran Allsopp-Robson wedi gofyn am drafod yr eitem hon, gan ei fod yn pryderu nad oedd gan gangen Rhuthun y Lleng Brydeinig y cyfleusterau i drefnu unrhyw ddigwyddiadau arbennig. Awgrymwyd cysylltu gyda Chyngor Sir Ddinbych i ganfod beth yw ei gynlluniau, ac i sgwrsio gyda'r hanesydd lleol Geraint Owain gan ei fod wedi cynnig cynllun pedair blynedd yn cwmpasu 2014-2018 yn flaenorol.
PENDERFYNWYD*: cysylltu â'r uchod a sicrhau bod gwaith cynnal a chadw'r Gofeb yn cael eu cwblhau cyn Sul y Cofio 2018.*

185. CYTUNDEB LLUNGOPÏWR Y SWYDDFA

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried dau ddewis llogi llungopïwr am gyfnod o bum mlynedd gan Canda Copying Ltd. Holodd yr aelodau y Clerc a oedd hi'n defnyddio cyfleuster A3 y peiriant presennol, a chadarnhaodd ei bod wedi'i ddefnyddio unwaith yn ystod ei chyfnod yn y swydd. Cynigiwyd bod y Cyngor Tref yn derbyn y cytundeb am lungopïwr newydd heb gyfleuster A3, a fyddai'n rhoi arbedion potensial o £317 y flwyddyn ar sail costau llogi a chopïau yn 2017.
PENDERFYNWYD*: cytuno ar gytundeb llogi 5 mlynedd llungopïwr Ricoh Aficio MPC307SP A4 Duplex ar £34.92 + TAW y chwarter.*

186. ADNEWYDDU ENWAU PARTH

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried adnewyddu'r enwau parth ruthintowncouncil.gov.uk a cyngortrefrhuthun.gov.uk at gost o £69.00 + TAW yr un am ddwy flynedd neu i gofrestru am enwau parth newydd .gov.wales a .llyw.cymru, ar gost o £109 + TAW am bob enw parth. Cadarnhaodd y Clerc bod y Cynghorydd Dave Snape wedi gwirio a chadarnhau bod hwn yn gais dilys gan gwmni cofrestredig, ac nid yn gais gwerwydo. Trafododd yr aelodau'r dewisiadau a chynigiwyd newid i enwau parth gov.wales a llyw.cymru. Pwysleisiodd y Cynghorydd Gavin Harris bod angen i'r Cyngor sicrhau mudo trefnu o'r enwau parth cyfredol i'r enwau parth newydd.
PENDERFYNWYD*: cofrestru ar gyfer enwau parth gov.wales a llyw.cymru ar gyfer Cyngor Tref Rhuthun.*

187. ZURICH INSURANCE

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried adnewyddu'r polisi gyda Zurich Insurance ar gyfer 2018-19 ar gost o £4,566.45 (yn cynnwys Treth Premiwm Yswiriant o £489.26).
PENDERFYNWYD*: adnewyddu'r polisi yswiriant gyda Zurich ar gyfer 2018-19.*

188. POLISI CRONFEYDD WRTH GEFN

Gofynnwyd i'r aelodau fabwysiadu Polisi Cronfeydd wrth Gefn ffurfiol ar gyfer Cyngor Tref Rhuthun.

***PENDERFYNWYD**: mabwysiadu Polisi Cronfeydd Wrth Gefn ffurfiol i gadw cronfeydd wrth gefn o rhwng 25% a 100% o'r incwm blynyddol.*

189. AMCANGYFRIFON ARIANNOL 2018-19

Arweiniodd y Clerc yr aelodau trwy'r amcangyfrifon drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2019, a phwysleisiodd y dylai aelodau gynnig unrhyw newidiadau i'r symiau dan unrhyw benawdau. Cynigiodd y Cynghorydd Emrys Wynne leihau'r swm ar gyfer 'Amrywiol' o £4,000 i £3,500 a chafodd hyn ei eilio a'i gytuno. Cynigiwyd hefyd ddyrannu £42,500 dan bennawd newydd, 'Buddsoddiad Cyfalaf' tuag at brosiectau yn y dyfodol. Ystyriodd yr aelodau effaith hyn ar drethdalwyr. Byddai'n cynrychioli cynnydd i £56.56 (o £53.90 yn 2017-18) i drethdalwyr Band D. Cynigiwyd ac eiliwyd hyn, a'i gytuno.

***PENDERFYNWYD**: derbyn yr Amcangyfrifon Ariannol ar gyfer 2018-19, gyda'r newidiadau uchod, a phennu praesept o £136,050 ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19.*

190. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Adroddiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu
Members were asked to approve the Financial Statement for the period ending 31 Rhagfyr 2017.

***PENDERFYNWYD**: derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Tachwedd 2017.*

191. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*

5121	SLCC	Adnewyddu aelodaeth y Clerc â'r SLCC		£165.00
5122	Clwb Criced Rhuthun	Cymorth ariannol tuag at rwydi allanol		£700.00
5123	Swyddfa Archwilio Cymru	Archwilio'r Cyfrifon 2016/17		£234.00
5124	Sandra Williams	Stampiau Nadolig		£15.60
5125	Fineline	Cardiau Nadolig y Maer	*	£142.60
D.D.	BT Business	Gwasanaethau ffôn a band eang	*	£112.69
B.T.	Cyng. Jim Bryan	Cysuron y Nadolig gan y Maer		£40.00
5126	Matthew Butt	Llogi system sain ar gyfer nos Galan		£300.00
5127	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac Yswiriant Gwladol		£274.90
5128	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd	*	£180.00
D.U.	Canda Copying Ltd	Rhentu'r llungopïwr a chopïau isafswm	*	£129.14
5129	Canda Copying Ltd	Copïau du a gwyn ychwanegol	*	£27.88
5130	Canda Copying Ltd	Copïau lliw ychwanegol	*	£26.23
5131	Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru	2 ginio ar ôl cyfarfod chwarterol 19.01.18		£32.00
5132	Gwasanaethau Coed Cymru	Cyflenwi, gosod, tynnu ymaith a gwaredu coed Nadolig tref Rhuthun 2017	*	£1,466.40
5133	Cyng. J. Bryan	Costau teithio – cyfarfod Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru		£16.20

192. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 26 Chwefror 2018 at 7.00pm.*